2009-10

Mehefin 2010

Awdur: Gillian Body, Archwilydd Cyffredinol Cymru Cyf: 318A2010

# Llythyr Archwilio Interim 2009-10 i Gyrff Rhagflaenol

# **Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 4 |
| **Llythyr Manwl** | |
| Defnyddiwyd adnoddau'r cyrff rhagflaenol yn briodol ym mhob ffordd berthnasol a rhoddwyd cyfrif priodol amdanynt ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009 | 7 |
| Cafodd cyfrifon pob corff rhagflaenol ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009 eu paratoi'n briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, er i mi dynnu sylw at yr ansicrwydd ynghylch costau gofal iechyd parhaus y Byrddau Iechyd Lleol a ddiddymwyd | 7 |
| Dengys alldro cyfun y cyrff rhagflaenol adeg eu diddymu a'u rhagolygon ar gyfer diwedd y flwyddyn bod risgiau ariannol sylweddol y mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hwy yn ystod 2010-11 a thu hwnt | 9 |
| Roedd systemau ariannol pwysig y cyrff rhagflaenol yn gyffredinol addas at y diben ar gyfer cyfnod cau'r cyfrifon | 10 |
| Daeth fy ngwaith archwilio perfformiad i'r casgliad bod gan y cyrff rhagflaenol drefniadau corfforaethol priodol ar waith i'w helpu i gyflawni darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd a wneir o adnoddau. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â rhai materion sefydliadol allweddol | 10 |
| Mae fy ngwaith archwilio perfformiad diweddar yn y sefydliadau sy'n dirwyn i ben yn amlygu nifer o heriau y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd newydd fynd i'r afael â hwy | 11 |
| Er i'r broses bontio gael ei rheoli'n dda yn gyffredinol, a'i harwain yn effeithiol, mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu systemau ategol | 12 |
| **Atodiadau** | |
| Casgliadau ar drefniadau'r cyrff rhagflaenol ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009 i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau | 14 |
| Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r cyrff rhagflaenol yn ystod y chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009 i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau | 16 |
| Adroddiadau a gyflwynwyd ers mis Medi 2009 | 17 |
| Adroddiadau archwilio perfformiad | 18 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk

## Crynodeb

1. Mae'r Llythyr Archwilio interim (Llythyr) hwn i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) yn ymwneud â'm harchwiliadau o'i gyrff rhagflaenol ar gyfer y cyfnod o chwe mis hyd at 30 Medi 2009. Nodwyd y gwaith y sonnir amdano yn y Llythyr yn y strategaethau archwilio y cytunwyd arnynt ar gyfer y sefydliadau canlynol:
    - Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru
    - Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru
    - Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) Ynys Môn
    - BILl Conwy
    - BILl Sir Ddinbych
    - BILl Sir y Fflint
    - BILl Gwynedd
    - BILl Wrecsam
2. Mae'r Llythyr hwn yn hysbysu aelodau'r Bwrdd Iechyd o unrhyw faterion o bwys sy'n codi o'r archwiliadau hynny, ynghyd â'm sylwadau ar faterion cyfredol eraill.
3. Wynebodd rhagflaenwyr y Bwrdd Iechyd newidiadau a heriau sylweddol yn eu chwe mis olaf, yn bennaf yr angen i baratoi ar gyfer y rhaglen ddiwygio yn GIG Cymru, a arweiniodd at eu diddymu, a sefydlu Bwrdd Iechyd ar 1 Hydref 2009. Cyfrannodd rhagflaenwyr y Bwrdd Iechyd at y trefniadau pontio ar gyfer cymuned iechyd Gogledd Cymru a ystyriodd amrywiaeth o risgiau gan gynnwys parhad busnes, cyllid ac adnoddau dynol. Canolbwyntiodd fy ngwaith yn ystod y cyfnod hwn ar archwilio datganiadau ariannol ac adroddiadau etifeddiaeth y cyrff sy'n dirwyn i ben a rhoi casgliad ar b'un a oedd gan y cyrff drefniadau priodol ar waith yn ystod y cyfnod i'w helpu i gyflawni darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau. Roedd hefyd yn cynnwys archwilio'r trefniadau pontio ar gyfer sefydlu'r Bwrdd Iechyd fel rhan o'r broses o ad-drefnu'r GIG yng Nghymru. Roedd y gwaith yn seiliedig ar elfennau allweddol o'm cyfrifoldebau fel y'u nodir yn y Cod Ymarfer Archwilio (y Cod)[1].
4. Nodwyd y ffioedd archwilio ar gyfer y gwaith yn ystod y cyfnod hwn yn y strategaethau archwilio y cytunwyd arnynt ar gyfer pob corff rhagflaenol.

---

[1] Gwnaf sawl cyfeiriad yn y Llythyr hwn at ganllawiau a dogfennaeth a gyflwynwyd gennyf, gan gynnwys y Cod. Roedd hyn yn berthnasol i'r cyfnod archwilio cyfan ac mae'n cyfeirio at y Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr ac Arolygwyr a Chyrff a Archwilir ac a Arolygir sy'n crynhoi cyfrifoldebau allweddol archwilwyr. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn y datganiad hwnnw. Dylid ystyried fy sylwadau am ganlyniadau fy archwiliad yng nghyd-destun y cefndir mwy ffurfiol hwnnw.

5. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyflwynwyd gennyf i sefydliadau'r GIG a ddiddymwyd, a'r Bwrdd Iechyd. Trafodwyd yr adroddiadau hyn gan archwilwyr, a chytunwyd arnynt gyda swyddogion ac fe'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio perthnasol. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 3.

6. Daeth fy ngwaith archwilio ariannol i'r casgliad bod adnoddau'r cyrff rhagflaenol, ym mhob ffordd berthnasol, wedi cael eu defnyddio'n briodol a rhoddwyd cyfrif priodol amdanynt ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009:

   - cafodd cyfrifon pob corff rhagflaenol ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009 eu paratoi'n briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, er i mi dynnu sylw at yr ansicrwydd ynghylch costau gofal iechyd parhaus y Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) a ddiddymwyd;
   - dengys alldro cyfun y cyrff rhagflaenol adeg eu diddymu a'u rhagolygon ar gyfer diwedd y flwyddyn bod y Bwrdd Iechyd yn wynebu risgiau ariannol sylweddol yn ystod 2010-11 a thu hwnt;
   - roedd systemau ariannol pwysig y cyrff rhagflaenol yn gyffredinol addas at y diben ar gyfer cyfnod cau'r cyfrifon.

7. Daeth fy ngwaith archwilio perfformiad i'r casgliad bod gan y cyrff rhagflaenol drefniadau corfforaethol priodol ar waith i'w helpu i gyflawni darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd a wneir o adnoddau. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â rhai materion sefydliadol allweddol:

   - mae fy ngwaith archwilio perfformiad diweddar yn y sefydliadau sy'n dirwyn i ben yn amlygu nifer o heriau y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd newydd fynd i'r afael â hwy;
   - er i'r broses bontio gael ei rheoli'n dda yn gyffredinol, a'i harwain yn effeithiol, mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu systemau ategol.

8. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried y canfyddiadau hyn. Bydd yr adroddiadau etifeddiaeth sy'n dwyn ynghyd brif ganfyddiadau gwaith archwilio allanol diweddar ym mhob un o'r cyrff sy'n dirwyn i ben yn helpu gyda hyn.

9. Mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfathrebu wedi cael copi o'r llythyr hwn a bydd pob aelod o'r Bwrdd Iechyd yn cael copi ohono.

10. Fy nod yw darparu archwiliad o safon uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol ac ymarferol ac sy'n ategu agenda'r Bwrdd Iechyd ei hun. Rwyf yn ddiolchgar i'ch rhagflaenwyr a'u staff am eu cymorth yn ystod yr archwiliad.





Anthony Barrett a Ceri Stradling

Partneriaid Ymgysylltu

Dros ac ar ran Gillian Body, Archwilydd Cyffredinol Cymru

Dyddiad: 29 Mehefin 2010

## Defnyddiwyd adnoddau'r cyrff rhagflaenol yn gywir ym mhob ffordd berthnasol a rhoddwyd cyfrif priodol amdanynt ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009

11. Mae'r datganiadau ariannol yn ffordd hanfodol o roi cyfrif am y modd y mae corff yn gwarchod yr adnoddau sydd ar gael iddo a'i berfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny.
12. Fel yr archwilydd allanol i'r cyrff rhagflaenol, mae'n ofynnol i mi archwilio datganiadau ariannol a chyhoeddi adroddiad archwilydd. Mae'n rhaid i'r adroddiad hwn gynnwys barn ar b'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg. Mae hefyd yn ofynnol i mi gael sicrwydd bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.
13. Mae fy ngwaith archwilio ariannol yn cwmpasu'r meysydd allweddol canlynol:
    - Datganiadau ariannol (neu gyfrifon)
    - Cyflwr ariannol
    - Rheoli ariannol
    - Systemau ariannol

### Cafodd cyfrifon pob corff rhagflaenol ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009 eu paratoi'n briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, er i mi dynnu sylw at yr ansicrwydd ynghylch costau gofal iechyd parhaus y Byrddau Iechyd Lleol a ddiddymwyd

14. Eleni bu'n ofynnol i'r cyrff gyflwyno eu cyfrifon chwe mis heb eu harchwilio i Swyddfa Archwilio Cymru erbyn 30 Tachwedd 2009. Llwyddodd pob corff i wneud hyn erbyn y terfyn amser ac eithrio Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru a BILl Wrecsam.
15. Ategwyd y cyfrifon yn gyffredinol gan bapurau gwaith da, ond cafwyd oedi o ran cael dogfennaeth ategol ar gyfer asedau sefydlog yn hen Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru. Er yr oedi, cyflwynwyd y cyfrifon archwiliedig i Lywodraeth y Cynulliad erbyn y dyddiadau gofynnol. Roedd hwn yn gyflawniad arbennig o ystyried y gwaith ychwanegol a oedd yn ofynnol i weithredu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a chymhlethdod y gwaith o baratoi'r cyfrifon cyfunol ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru.

16. Mae'n ofynnol i mi o dan Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n codi o'm gwaith i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' (y Pwyllgor Archwilio) cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Mhartneriaid Ymgysylltu adroddiad ar y materion hyn i'r Pwyllgorau Archwilio cyn i bob cyfres o gyfrifon terfynol gael ei chymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd a'i llofnodi gan y Swyddog Atebol. Nodir y materion allweddol yn Arddangosyn 1.

**Arddangosyn 1: Gofynion adrodd ISA 260**

| Gofyniad adrodd | Ymateb yr archwilydd |
|---|---|
| Addasiadau disgwyliedig i adroddiad yr archwilydd | Ni wnaed unrhyw addasiadau i adroddiadau'r archwilydd, ac eithrio'r rhai yn ymwneud â'r BILlau blaenorol. Gwneuthum addasu fy adroddiad i gynnwys nodyn pwysleisio mater yn tynnu sylw at yr ansicrwydd ynghylch costau gofal iechyd parhaus, yn sgîl ceisiadau a gafwyd am ad-daliadau o gostau gofal parhaus nas aseswyd eto ar gyfer y BILlau blaenorol. |
| Camddatganiadau nas addaswyd | Nid oedd unrhyw gamddatganiadau nas addaswyd ac eithrio'r canlynol, sydd, gyda'i gilydd, yn uwch na'r trothwy lle byddaf yn gofyn i'r cyfrifon gael eu diwygio:<br>**Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru** – Roedd costau cyflogeion yn cynnwys costau staff wedi'u cyfalafu gwerth £596,000. Mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 16 yn darparu cwmpas ar gyfer hawlio costau cyflogeion sy'n deillio'n uniongyrchol o adeiladu neu gaffael eitem o eiddo, peirianwaith a chyfarpar, gan eu bod yn gostau cyfalaf y gellir eu priodoli'n uniongyrchol. Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi dangos bod holl gostau cyflogeion wedi'u priodoli'n uniongyrchol i asedau penodol nac wedi rhoi tystiolaeth i gadarnhau'r costau hyn.<br>**BILl Conwy** – Mae'r camddatganiad nas cywirwyd ar gyfer swm perthnasol o £1.0 miliwn ac mae'n ymwneud â balansau credydwyr nas defnyddiwyd ar gyfer gofal nyrsio a gofal parhaus a ariennir gan y GIG. Dygwyd y balansau hyn ymlaen o'r flwyddyn flaenorol a, gan nad oedd eu hangen mwyach, cawsant eu cynnwys eto mewn refeniw ond fe'u dosbarthwyd yn anghywir fel incwm amrywiol. Y driniaeth gyfrifyddu gywir fyddai eu cofnodi yn erbyn y categori o wariant y cawsant eu cofnodi ynddo yng nghyfrifon y flwyddyn flaenorol.<br>Ym mhob achos, cafwyd cynrychioliadau priodol gan y Bwrdd Iechyd i gyfiawnhau'r rhesymau dros beidio ag addasu. Ni chafodd y camddatganiadau nas addaswyd unrhyw effaith ar ein barn archwilio gyffredinol gan nad oeddent yn berthnasol i'r cyfrifon. |

| Gofyniad adrodd | Ymateb yr Archwilydd |
|---|---|
| Gwendidau perthnasol yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod yr archwiliad | Nid oedd unrhyw wendidau perthnasol yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod yr archwiliad ac eithrio'r materion canlynol:<br>**Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru:**<br>• nodwyd gwendidau o ran rheoli gweithdrefnau cyfrif stoc;<br>• nid oedd yn bosibl cadarnhau cywirdeb y dadansoddiad rhwng lleihad mewn gwerth ac ailbrisiadau. |
| Safbwyntiau ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adroddiadau ariannol yr endid | Ni chododd unrhyw faterion. |
| Materion y mae'n ofynnol iddynt, o dan safonau archwilio eraill, gael eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu | Ni chododd unrhyw faterion. |
| Unrhyw faterion llywodraethu eraill sy'n ymwneud â'r archwiliad | Ni chododd unrhyw faterion. |

17. Deuthum i'r casgliad fod holl gyfrifon y rhagflaenwyr yn rhoi darlun cywir a theg o'u sefyllfa ar 30 Medi 2009. Roeddwn hefyd yn ddigon bodlon bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

18. Ym mhob un o gyfrifon y BILlau blaenorol, gwneuthum gynnwys nodyn pwysleisio mater gyda'm hadroddiad archwilio. Roedd yn tynnu sylw at yr ansicrwydd ynghylch costau gofal iechyd parhaus yn sgîl ceisiadau a gafwyd i ad-dalu costau gofal parhaus nas aseswyd eto.

19. Rhoddais fy marn ar y cyfrifon a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â'r amserlenni gofynnol.

## Dengys alldro cyfun y cyrff rhagflaenol adeg eu diddymu a'u rhagolygon ar gyfer diwedd y flwyddyn bod risgiau ariannol sylweddol y mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hwy yn ystod 2010-11 a thu hwnt

20. Yn benodol, nid oedd Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru wedi rheoli ei chynlluniau gwario ar gyfer y cyfnod yn unol â'i chyllidebau, a hynny yn sgîl methu â chyflawni'r arbedion arfaethedig, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i Grwpiau Rhaglenni Clinigol arbed saith y cant ar eu cyllidebau a bennwyd. Yn ogystal, roedd y BILlau blaenorol yn wynebu pwysau parhaus ar y gyllideb, gan gynnwys Gofal Iechyd Parhaus, lle nad oedd y broses o asesu nifer fawr o geisiadau wedi dod i ben. Mae gwaith i asesu'r ceisiadau hynny'n parhau.

21. Ar 31 Mawrth 2010, hysbysodd y Bwrdd Iechyd iddo gyrraedd ei Derfyn Adnoddau Refeniw (£1.1 biliwn) er iddo nodi diffyg cronnol o £9.7 miliwn ym mis 11. Cafodd y Bwrdd Iechyd arian ychwanegol nad yw'n rheolaidd a rhoddodd nifer o fentrau talu a mentrau nad ydynt yn rhai talu ar waith i fynd i'r afael â'r diffyg cronnol drwy gynlluniau gwella costau. Er i hyn sicrhau cydbwysedd ariannol ar ddiwedd y flwyddyn, mae angen gwneud rhagor o waith yn ystod 2010-11 i fynd i'r afael â'r materion sylfaenol.

### Roedd systemau ariannol pwysig y cyrff rhagflaenol yn gyffredinol addas at y diben ar gyfer cyfnod cau'r cyfrifon

22. Mae fy adolygiad o systemau ariannol y cyrff wedi cynnwys dogfennu'r systemau ariannol pwysig a, lle bo angen, profi'r rheolaethau mewnol.

23. Deuthum i'r casgliad y gellir dibynnu ar systemau ariannol pwysig pob un o'r cyrff a ddiddymwyd i gynhyrchu canlyniadau sy'n gywir mewn ffyrdd perthnasol.

## Daeth fy ngwaith archwilio perfformiad i'r casgliad bod gan y cyrff rhagflaenol drefniadau corfforaethol priodol ar waith i'w helpu i gyflawni darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd a wneir o adnoddau. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â rhai materion sefydliadol allweddol

24. Wrth archwilio cyfrifon y cyrff rhagflaenol bob cyfnod, mae'n ofynnol i mi o dan adran 61(3) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fodloni fy hun eu bod wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau. Adlewyrchir y gofyniad hwn hefyd yn y Cod. Nodir fy nghyfrifoldebau a'm casgliadau ffurfiol ar drefniadau'r cyrff ar gyfer y cyfnod o chwe mis yn Atodiad 1.

25. At ddibenion fy ngwaith, gwerthusais systemau pob corff yn erbyn nifer o gwestiynau, a nodir yn Atodiad 2. Ar gyfer pob cwestiwn, rwyf yn ystyried a oes bylchau yn y trefniadau y disgwylir iddynt fod ar waith, ac arwyddocâd y bylchau hynny.

26. Yn dilyn fy adolygiad o drefniadau'r cyrff rhagflaenol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau, deuthum i'r casgliad nad oes unrhyw wendidau sylweddol a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i mi roi barn anffafriol. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran llunio Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn dilyn cymeradwyaeth gan y Bwrdd Iechyd ar 25 Mawrth 2010, nid oedd unrhyw strategaeth gynhwysfawr ar waith ar gyfer y cyfnod a adolygir. Yn ogystal, dylai'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â'r materion sefydliadol allweddol a drafodir yn yr adran ganlynol.

## Mae fy ngwaith archwilio perfformiad diweddar yn y sefydliadau sy'n dirwyn i ben yn amlygu nifer o heriau y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd newydd fynd i'r afael â hwy

27. Er mwyn helpu datblygiad sefydliadol y sefydliad GIG newydd, gwneuthum baratoi adroddiadau etifeddiaeth, sy'n cynnwys crynodeb o'r canfyddiadau a'r negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio perfformiad diweddar yn y cyrff sy'n dirwyn i ben.

28. Ar gyfer y Bwrdd Iechyd, canfu fy ngwaith fod y gymuned iechyd wedi dangos cryfderau o ran rheoli ariannol, gweithio mewn partneriaeth a rhai agweddau ar berfformiad, ond mae gwendidau o ran llywodraethu a rheoli perfformiad, ystad sy'n heneiddio a chyfyngiadau etifeddol o ran arian ac adnoddau yn cyflwyno heriau mawr:

- mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddangos bod ei drefniadau llywodraethu yn llywio newid strategol a'u bod yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol;
- er bod trefniadau rheoli ariannol cadarn ar waith yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd newydd bellach yn wynebu pwysau ariannol sylweddol a fydd yn gofyn am fesurau radical er mwyn cyrraedd targedau ariannol a gweithredol;
- mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau sylweddol o ran rheoli ei ystad sy'n heneiddio a sicrhau ei fod yn addas at y diben;
- mae materion yn ymwneud â gallu ac adnoddau staff a'r angen i foderneiddio'r gweithlu ymhellach wedi codi mewn sawl un o'm hadroddiadau archwilio, er i'r ymddiriedolaethau rhagflaenol wneud rhywfaint o gynnydd da i leihau cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch;
- er bod rhai gwelliannau wedi'u gwneud, mae fy ngwaith wedi nodi rhai meysydd hirsefydlog o dangyflawni mewn perthynas â threfniadau rheoli perfformiad;
- mae ymrwymiad amlwg i gydweithio ac ymgysylltu â sefydliadau partner, er bod angen ymgysylltu'n well â staff, cleifion a'r cyhoedd.

29. Mae'r gwaith archwilio perfformiad y cyfeiriais ato mewn strategaethau archwilio blaenorol yn rhan o raglen dreigl o astudiaethau cenedlaethol a lleol. Er bod rhywfaint o'r gwaith hwn wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i gyrff priodol y GIG a ddiddymwyd, mae astudiaethau eraill yn mynd rhagddynt o hyd. Caiff y gwaith hwn ei gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd newydd, a chyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio ar yr holl waith sy'n mynd rhagddo. Bydd y Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer y corff yn crynhoi'r adroddiadau hyn. Mae Atodiad 4 yn crynhoi sefyllfa'r amryw brosiectau archwilio perfformiad a nodwyd gan strategaethau archwilio diweddar cyrff y GIG a ddiddymwyd.

## Er i'r broses bontio gael ei rheoli'n dda yn gyffredinol, a'i harwain yn effeithiol, mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu systemau ategol

30. Cafodd y broses o greu'r Bwrdd Iechyd ei hategu gan raglen o waith pontio yn y gymuned iechyd. Penodwyd Cyfarwyddwr Pontio a Rheolwr Rhaglen a llywiwyd y gwaith gan y Bwrdd Diwygio a'r Bwrdd Cysgodol. Cynhaliwyd gwaith archwilio i bennu cadernid y trefniadau i sefydlu'r Bwrdd Iechyd newydd.

31. Ar y cyfan, er i'r broses o bontio gael ei rheoli'n dda yn gyffredinol, a'i harwain yn effeithiol, mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu systemau ategol. Mae'r dyfarniad hwn yn seiliedig ar y canfyddiadau canlynol.

### Cafodd y rhaglen bontio yng nghymuned iechyd Gogledd Cymru ei rheoli'n dda ar y cyfan, a llwyddodd y Bwrdd Diwygio a'r Bwrdd Cysgodol i arwain a goruchwylio'r broses bontio'n effeithiol

32. Roedd dulliau ymgysylltu da ar waith ym mhob rhan o'r gymuned iechyd i gefnogi'r broses bontio. Wrth wraidd hyn roedd proses rheoli prosiect a rhaglen gadarn, asesiadau risg realistig a gwerthfawrogiad da o'r materion sy'n 'hanfodol i'r busnes' yr oedd angen mynd i'r afael â hwy erbyn 1 Hydref 2009, a chafodd tasgau allweddol eu blaenoriaethu i sicrhau parhad gwasanaethau.

33. Rhoddodd y Bwrdd Diwygio a'r Bwrdd Cysgodol drefniadau llywodraethu cadarn ar waith, ochr yn ochr â fframwaith llywodraethu clir. Mae'r trefniadau hyn yn cydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu da, er ei bod yn rhy gynnar i asesu a fyddant yn cael eu hymgorffori yn y Bwrdd Iechyd newydd.

34. Rheolwyd gallu Adnoddau Dynol yn dda a defnyddiwyd y fframwaith newid sefydliadol drwy gydol y broses. Cafodd staff eu hamddiffyn a'u cefnogi yn ystod y broses bontio cyn belled ag y bo'n ymarferol, a llwyddwyd i gyfathrebu'n effeithiol iawn â staff drwy gydol y broses bontio.

35. Gweithiodd fy nhîm ymgysylltu'n agos â Bwrdd y Rhaglen a'r ffrydiau gwaith a, lle y bo'n berthnasol, defnyddiodd y ffrydiau gwaith ganllaw archwilio Swyddfa Archwilio Cymru mewn ffordd gadarnhaol i gefnogi a llywio eu gweithgareddau.

### Mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu fframwaith sicrwydd, trefniadau rheoli risg a rheoli gwybodaeth a thechnoleg, a pharhau i weithio mewn partneriaeth

36. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ddatblygu fframwaith sicrwydd y Bwrdd Iechyd ac i symleiddio ei drefniadau rheoli risg.

37. Nodwyd cyfleoedd i wella trefniadau pontio Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg, ond llwyddwyd i leihau'r risgiau yn y tymor byr gan fod trefniadau etifeddiaeth y corff rhagflaenol yn parhau. Yn y tymor canolig a'r hirdymor, mae angen gwneud newidiadau i gyfuno adnoddau a chydgysylltu cyfeiriad strategol yn unol ag angen lleol a'r agenda Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg a gwybodeg genedlaethol.

38. Roedd trefniadau pontio priodol i gynnal partneriaeth a chydweithio ar waith hefyd, ond mae llwyddiant yn y dyfodol yn dibynnu ar gytuno ar brosesau llywodraethu a darparu gwasanaethau effeithiol. Yn arbennig, mae'n bwysig iawn bod partneriaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Atodiad 1

# Casgliadau ar drefniadau'r cyrff rhagflaenol ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009 i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Atebol**

Mae'r Swyddog Atebol ar gyfer pob un o gyrff y GIG yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnydd corff y GIG o adnoddau, a sicrhau stiwardiaeth a llywodraethu priodol. Mae'r Swyddog Atebol hefyd yn gyfrifol am adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn rheolaidd.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd**

Mae cyfrifoldeb arnaf o dan adran 61(3) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i gasglu o'm harchwiliad o gyfrifon blynyddol pob un o gyrff y GIG a gwybodaeth berthnasol arall a wyf yn fodlon iddo wneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau At ddibenion fy ngwaith yn y maes hwn, rwyf wedi asesu 'trefniadau priodol' yn bennaf fel trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol sefydliad, y diffinnir elfennau pwysig ohonynt ym mharagraff 48 o'r Cod.

Cyflwynaf adroddiad os daw materion o bwys i'm sylw sy'n fy atal rhag casglu bod corff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol o'r fath. Wrth ymgymryd â'm gwaith, nid wyf wedi ystyried a yw'r trefniadau sydd ar waith yn cynrychioli'r holl drefniadau a allai fod ar waith. Nid yw'n ofynnol ychwaith i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried fel rhan o'r agwedd hon ar fy ngwaith, effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith ym mhob un o gyrff y GIG ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn ystod y cyfnod a adolygir.

**Casgliad**

Mae'r casgliadau canlynol wedi'u seilio ar waith a gynhaliwyd fel rhan o'm harchwiliadau o'r cyfrifon chwe mis ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 30 Medi 2009 ym mhob un o gyrff y GIG, ac mae'n gyfyngedig i'r gwaith hwnnw. Rwyf hefyd wedi seilio fy nghasgliadau ar unrhyw wybodaeth arall yr ystyriais ei bod yn berthnasol i'm harchwiliad, i gadarnhau, ym mhob ffordd berthnasol, pa drefniadau a oedd ar waith gan bob un o gyrff y GIG yn ystod y cyfnod i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Yn seiliedig ar y Datganiadau o Reolaeth Fewnol, ac o ganlyniad i'r gwaith a gynhaliwyd fel rhan o'm harchwiliadau o gyfrifon chwe mis pob un o gyrff y GIG ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 30 Medi 2009, a'r holl wybodaeth arall yr ystyriais ei bod yn berthnasol, rwy'n fodlon ar y cyfan bod trefniadau i helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd a wneir o adnoddau ar waith yng nghyrff canlynol y GIG, yn amodol ar y materion y cyfeirir atynt ym mharagraffau 27 i 38:

- Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru
- BILl Ynys Môn
- BILl Conwy
- BILl Sir Ddinbych

| Casgliad (parhad) | |
|---|---|
| • BILl Sir y Fflint<br>• BILl Gwynedd<br>• BILl Wrecsam | |
| Gillian Body<br>Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Mehefin 2010 | Swyddfa Archwilio Cymru<br>24 Heol y Gadeirlan<br>Caerdydd<br>CF11 9LJ |

## Atodiad 2

# Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r cyrff rhagflaenol yn ystod y chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009 i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau

| Trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol | Cwestiynau ar drefniadau |
|---|---|
| **Pennu amcanion, llunio polisïau a gwneud penderfyniadau** | A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer pennu, adolygu a gweithredu ei amcanion strategol a gweithredol? |
| **Diwallu anghenion defnyddwyr a threthdalwyr** | A yw'r Corff wedi sefydlu dulliau o gyfathrebu â chleifion a'u cynrychiolwyr, a rhanddeiliaid eraill yn cynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau bod negeseuon allweddol ynglŷn â gwasanaethau yn cael eu hystyried? |
| **Cydymffurfiaeth â pholisïau sefydledig** | A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i gynnal system rheolaeth fewnol gadarn, yn cynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol? |
| **Rheoli risgiau gweithredol ac ariannol** | A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli ei risgiau busnes pwysig? |
| **Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill** | A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i werthuso a gwella'r gwerth am arian y mae'n ei gyflawni o ran ei ddefnydd o adnoddau?<br>A yw'r Corff wedi rhoi strategaeth ariannol, cyllidebau a rhaglen gyfalaf tymor canolig ar waith ac iddynt sail gadarn a chyda'r nod o gyflawni ei flaenoriaethau strategol?<br>A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod ei wariant yn cyfateb i'r adnoddau sydd ar gael?<br>A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gan gymryd camau adferol lle y bo'n briodol, a chyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i uwch reolwyr a'r Bwrdd?<br>A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli ei sail asedau? |
| **Monitro ac adolygu perfformiad** | A yw'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro perfformiad a chraffu arno, i nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol, ar gyfer gweithredu lle bo angen a chyflwyno adroddiad i'r Bwrdd?<br>A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro ansawdd ei wybodaeth gyhoeddedig am berfformiad, ac i gyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i aelodau'r Bwrdd? |
| **Safonau ymddygiad priodol ac ati** | A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith gyda'r nod o hyrwyddo a sicrhau cywirdeb a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes? |

# Atodiad 3

## Adroddiadau a gyflwynwyd ers mis Medi 2009

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Strategaeth Archwilio** | |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru | Medi 2009 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru | Medi 2009 |
| BILl Ynys Môn | Medi 2009 |
| BILl Conwy | Medi 2009 |
| BILl Sir Ddinbych | Medi 2009 |
| BILl Sir y Fflint | Medi 2009 |
| BILl Gwynedd | Ionawr 2009 (strategaeth 18 mis) |
| BILl Wrecsam | Medi 2009 |
| **Archwiliad o'r Cyfrifon Ariannol ac Adroddiad i'r Rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu** | |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru | Mawrth 2010 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru | Chwefror 2010 |
| BILl Ynys Môn | Chwefror 2010 |
| BILl Conwy | Chwefror 2010 |
| BILl Sir Ddinbych | Chwefror 2010 |
| BILl Sir y Fflint | Chwefror 2010 |
| BILl Gwynedd | Chwefror 2010 |
| BILl Wrecsam | Chwefror 2010 |
| **Adroddiad etifeddiaeth** | Ebrill 2010 |
| **Adroddiadau eraill ar berfformiad** | |
| Adolygiad ôl-weithredu o'r System Gweinyddu Cleifion (PAS) – Dwyrain (Llythyr canfyddiadau) | Rhagfyr 2009 |
| Staffio Wardiau | Chwefror 2010 |
| Rheoli Meddyginiaethau (gwaith dilynol) | Chwefror 2010 |
| **Llythyr Archwilio Interim** | Mehefin 2010 |

Atodiad 4

## Adroddiadau archwilio perfformiad

Mae'r tabl canlynol yn dangos y trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau mewn perthynas â phrosiectau archwilio perfformiad, sydd wedi'u nodi yn strategaethau archwilio diweddar y cyrff rhagflaenol.

**Trefniadau cyflwyno adroddiadau ar gyfer gwaith archwilio perfformiad**

| Astudiaeth | Cyflwynwyd i gorff y GIG a ddiddymwyd | Cyflwynwyd eisoes i'r Bwrdd Iechyd newydd | Heb ei gyflwyno eto |
|---|---|---|---|
| Staffio Wardiau | | ✓ | |
| Ad-drefnu'r GIG | ✓ | ✓ | |
| Adroddiad Etifeddiaeth | | ✓ | |
| Cywirdeb Data Rhestrau Aros | | | ✓ |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion | | | ✓ |
| Arlwyo mewn Ysbytai | | | ✓ |
| Gwireddu Buddiannau'r Contract Meddygon Ymgynghorol | | | ✓ |
| Gwaith dilynol o ran Rheoli Meddyginiaethau | ✓ | ✓ | |
| Ôl-driniaeth Cleifion allanol | ✓ | | ✓ |
| Theatrau Llawdriniaethau | | | ✓ |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: wales@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk